THE QUEEN'S
ANNIVERSARY PRIZES
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION
2011

# 2013 / 14
# Adroddiad Blynyddol
# Annual Report

Grŵp
Llandrillo
Menai

# Cynnwys
# Contents


| | | |
|---|---|---|
| 04 | Rhagair y Cadeirydd | Chair's Foreword |
| 06 | Neges gan y Prif Weithredwr | Message from the Chief Executive Officer |
| 08 | Y Cynnydd a wnaed o ran y Nodau Strategol | Progress towards Strategic Goals |
| 13 | Llwyddiannau a Chyflawniadau | Successes & Achievements |
| 20 | Ffeithiau, Ystadegau a Chyllid | Facts, Figures & Finance |


# Aelodau'r Bwrdd
# Board Members

Dr Roy Bichan
(Cadeirydd/Chair)

Dr Griff Jones
(Is-Gadeirydd/Vice Chair)

Mr John Bellis

Mr Glyn Catley MBE

Mr Dilwyn Evans

Mrs Helen Halpin

Dr Ann Hynes

Mr Chris Jackson OBE

Mr Glyn Jones OBE

Mrs Mair Jones OBE

Cyngh/Cllr Wyn Jones

Mr Peter Lavin

Mrs Shân Oliver

Mr Hedd Pugh

Cyngh/Cllr Gareth Thomas (ers/from 10.04.14)

Miss Bethan Brady

Mr John Pierce Williams


Mr Alun Thomas

Mr David Williams MBE

Mr Andy Billcliff

Toby Prosser YH/JP - Swyddog Llywodraethu'r Grŵp
Grŵp Governance Officer

# Lleoliadau'r Campysau
# Campus Locations




## Allwedd
## Key

- Campysau Coleg Llandrillo / **Coleg Llandrillo Campuses**
- Campysau Coleg Menai / **Coleg Menai Campuses**
- Campysau Coleg Meirion-Dwyfor / **Coleg Meirion-Dwyfor Campuses**

## Cenhadaeth

**Darparu addysg a hyfforddiant ardderchog i'n dysgwyr a'n cleientiaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.**

## Mission

**To provide excellent education and training for our learners and clients locally, nationally and internationally.**

## Gweledigaeth

**Gweledigaeth gyffredinol Grŵp Llandrillo Menai yw bod yn:**

- Ddarparwr profiadau dysgu a chyfraddau llwyddo rhagorol
- Cyflogwr ardderchog sy'n symbylu, yn grymuso ac yn cefnogi ei staff
- Patrwm o ran darparu addysg ddwyieithog – a gydnabyddir ledled Ewrop
- Ysgogwr yr economi leol ac economi Cymru
- Canolbwynt o ran gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Addysg Uwch, ysgolion ac awdurdodau lleol
- Cyfrwng i adfywio cymunedau lleol.

## Vision

**The overarching vision for Grŵp Llandrillo Menai is to be:**

- A provider of outstanding learning experiences and success rates
- An excellent employer that motivates, empowers and supports staff
- An exemplar deliverer of bilingual education – recognised across Europe
- An economic driver of the regional and Welsh economy
- A hub for partnership working with Higher Education, schools and local authorities
- An agent for regeneration of local communities.

# Rhagair y Cadeirydd
# Chair's Foreword

**Bu hon yn flwyddyn lwyddiannus, ond heriol, arall i'r Grŵp, gyda'n dysgwyr yn parhau i lwyddo'n well nag erioed, gan ennill gwobrau lu. Mae'r rhain yn dystiolaeth o ddawn ein staff i ddarparu fframwaith y mae ein myfyrwyr yn ffynnu ynddo.**

Rhoddodd y Grŵp gychwyn ar nifer o ddatblygiadau cyfalaf sylweddol. Yr uchafbwynt oedd cwblhau'r Ganolfan Brifysgol newydd o fri ar safle Llandrillo-yn-Rhos yn ystod yr haf. Yn yr adeilad hwn, ceir cyfleusterau dysgu penigamp i'r rhai sy'n dilyn ein cyrsiau gradd ac ôl-radd, ac mae'n caniatáu i bobl leol gael addysg uwch ar garreg eu drws, heb orfod mynd i'r costau sy'n gysylltiedig â byw oddi cartref. Rydym yn ddiolchgar i Brifysgol Bangor, ac i'n partneriaid prifysgol eraill, am eu cymorth cyson i'r Grŵp yn y cyswllt hwn.

Mae'r Grŵp wedi gwneud cynnydd sylweddol yn CAMDA, ei ganolfan beirianneg ac adeiladu yn Nolgellau, wedi ehangu ac ailwampio ei felin goed yng Nglynllifon, ac wedi ehangu gan symud i adeiladau newydd yn Ninbych. Ymhlith y prosiectau seilwaith sylweddol, roedd mudo meddalwedd cyfrifiadurol ar raddfa fawr, ehangu'r ddarpariaeth Wi-Fi ar bob campws, ac adnewyddu cyfleusterau'r ffreutur yn Llandrillo-yn-Rhos.

Er mwyn ymateb i leihad mewn cyllid cyhoeddus yng Nghymru, bu'n rhaid i'r Grŵp weithredu'n gadarnhaol gan fynd i'r afael â dau doriad sylweddol mewn arian rheolaidd. Er gwaethaf y diffyg hwn, mae'r Grŵp wedi llwyddo, gan gynhyrchu gwarged gweithredol o bron i £1m. Mae hyn yn llesol ac yn hanfodol er mwyn ail-fuddsoddi yn ystâd y Grŵp. Ni ddigwyddodd hyn ohono'i hun; yn anorfod, deilliodd ar leihad yn niferoedd y staff. Ni fydd y caledi hwn yn y sector cyhoeddus yn newid hyd y gellir rhagweld, a nod rhagweithiol y Bwrdd yw mynd i'r afael â hyn drwy annog y sefydliad i fod yn fwy cynaliadwy a gwydn er mwyn iddo allu parhau i ddarparu addysg a chyfleusterau o'r radd flaenaf i'w fyfyrwyr, er gwaethaf y cyfnod ansicr hwn.

**This has been another successful, if challenging, year for the Grŵp, with continued improvement in our learners' success rates and numerous accolades. These stand as testament to the creativity of our staff in providing a framework in which our students thrive.**

The Grŵp has initiated some significant capital developments, culminating in the summer with the completion of a prestigious new University Centre at the Rhos-on-Sea Campus (the UCCL). This building provides state-of-the-art learning facilities for our undergraduate and postgraduate learners, and allows local people access to Higher Education right on their doorstep, without having to incur the costs of living away. We are grateful to Bangor University for their continued close support to the Grŵp in this regard, and to our other university partners.

The Grŵp has significantly progressed its CAMDA Engineering and Construction hub at Dolgellau, extended and refurbished its sawmill at Glynllifon, and expanded into new premises at Denbigh. Significant infrastructure projects have included a wholesale migration in computing software, extended Wi-Fi provision at all campuses, and refurbished canteen facilities at Rhos-on-Sea.

Response to a downturn in public finance in Wales required the Grŵp to react positively to address two significant cuts in recurrent funding. It has prevailed despite this shortfall, and generated an operational surplus of nearly £1m. This is both healthy and essential for reinvestment into the Grŵp's estate. This achievement does not come in isolation, and has inevitably resulted in a reduction in staffing numbers. Financial austerity in the public sector will not change in the foreseeable future, and it is the Board's proactive aim to address this by promoting a more sustainable and resilient organisation which can continue to provide the best quality learning and facilities for its students, in spite of uncertain times.







Er mwyn symud ymlaen, mae Grŵp Llandrillo Menai wedi gwneud cais am ei gontract Dysgu Seiliedig ar Waith mwyaf erioed, a hydera y bydd ei gontract presennol, sy'n werth £12m, yn cynyddu 25%. Rydym yn parhau i fynd ar drywydd ffrydiau cyllido newydd o Ewrop er mwyn cefnogi prentisiaethau, yr hyfforddiant a'r dysgu yn y tymor canol. Gyda Horizon a Hitachi GE, rydym yn ymwneud â phrosiect niwclear Wylfa Newydd, a chredwn fod hyn yn gyfle pwysig i gefnogi a datblygu gweithrediadau arbenigol yn Llangefni. Eleni hefyd, lansiwyd cynllun Ynni Adnewyddadwy arbenigol ac unigryw mewn cydweithrediad â RWE Npower, ac eisoes derbyniodd ugain prentis newydd hyfforddiant ym maes Technolegau Tyrbinau Gwynt.

Bu'n bleser bod yn Gadeirydd a chael hwyluso ymdrechion y Grŵp yn 2013-14. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Bwrdd am eu cyngor doeth a'u hymrwymiad parhaus i'n myfyrwyr ac i anghenion yr economi leol.

Moving forward, Grŵp Llandrillo Menai has bid for its highest ever Work-based Learning Contract, and it is optimistic of achieving a 25% growth in its current £12m contract. We are continuing to seek new funding streams from Europe to support apprenticeships, training and learning in the mid-term. We are engaged with the Wylfa Newydd Nuclear Project with Horizon and Hitachi GE, and consider this a significant opportunity for specialist operations support and development in Llangefni. This year has also seen a unique specialist Renewables scheme launch in conjunction with RWE Npower, which has already trained twenty new apprentices in Wind Turbine Technologies.

It has been a pleasure to be Chairman and to facilitate the Grŵp's endeavours in 2013-14. I am grateful to the Board for their wise counsel, and sustained commitment to our students and to the needs of the local economy.

## Dr Roy Bichan

**Cadeirydd**
**Chair**



Grŵp Llandrillo Menai

# Neges gan y Prif Weithredwr
# Message from the Chief Executive Officer

"Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyflwyno adroddiad am flwyddyn lwyddiannus arall yn natblygiad Grŵp Llandrillo Menai. Er gwaethaf pwysau parhaus, rydym wedi ymrwymo i gynnal safonau'r addysgu, y dysgu a chanlyniadau'r dysgwyr. Da yw gallu adrodd bod gwelliant parhaus i'w weld yn y cyd-destun hwnnw.

I am very pleased to present a further successful year in the development of Grŵp Llandrillo Menai. Despite continuing pressure we are committed to maintaining the standards of teaching, learning and learner outcomes. It is satisfying to be able to report on continuing improvement in that context."

Yn 2013-14, gwelodd Grŵp Llandrillo Menai gynnydd boddhaus yn ei ganlyniadau perfformiad allweddol. Cododd cyfradd 'Cwblhau'n Llwyddiannus' y Grŵp i 85% (o 84% yn 2012-13), ac roedd y dystiolaeth a gyflwynodd Estyn yn y ddau arolwg y gwnaethant eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn ategu'r canlyniad cyffredinol hwn.

Cafwyd gwell canlyniadau Lefel A hefyd ledled y Grŵp, gyda chynnydd sylweddol ac amlwg yn y graddau A–C.

Unwaith eto, cafodd y Grŵp ganlyniadau cadarnhaol iawn yn arolwg Llais y Dysgwr y bydd Llywodraeth Cymru'n ei gynnal yn flynyddol ledled sector Addysg Bellach Cymru. O ran atebion y dysgwyr i gwestiynau am yr addysgu, y dysgu a'r gefnogaeth a gynigir, Grŵp Llandrillo Menai a gafodd y canlyniadau gorau yng Nghymru. Mae'n braf iawn deall bod y dysgwyr yn fodlon â'n gwasanaethau'n gyffredinol.

Yn ystod y flwyddyn, ailwampiwyd yn sylweddol y cwricwlwm a gynigir gan y Grŵp er mwyn cydymffurfio â gofynion cwricwlwm ôl-16 newydd Cymru. Cyflwynwyd cyfres lawn o Raglenni Dysgu yn lle'r pecynnau cwricwlaidd blaenorol a gynigid gan y Grŵp. Roedd hwn yn waith mawr, a rhaid i mi fynegi fy niolch a'm hedmygedd o'r tîm o aelodau staff a weithredodd y newid hwn ar adeg pan y bu'n rhaid wynebu toriadau ariannol o tua £1.25 miliwn yn y grant Addysg Bellach.

Yn sgil ad-drefnu'r rheolwyr ledled y Grŵp, rhoddwyd strwythur cydlynol a chyson ar waith hefyd ym mhob un o'r colegau, er mwyn cysoni safonau, rhannu arferion da a chydymffurfio mwy â pholisïau a threfnau'r Grŵp. Roedd hyn yn cynnwys newid arweinwyr ym mhob un o golegau'r Grŵp. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dafydd Evans, Ian Rees a Linda Wyn a benodwyd yn Benaethiaid Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Merion-Dwyfor. Mae Kath Coughlin yn parhau yn ei swydd bwysig fel Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Grŵp Llandrillo Menai recorded pleasing improvements in its key performance results in 2013-14. The Grŵp's 'Successful Completion' rate improved to 85% (84% in 2012-13), and supporting this overall outcome was evidence presented by Estyn in two inspections conducted during the year.

A Level results across the Grŵp also improved, with significant improvements in A-C grades particularly evident.

The Learner Voice survey conducted by Welsh Government across the Further Education sector in Wales every year once again revealed very positive results for the Grŵp. The responses by learners to questions about teaching, learning and support offered to them generated the best results in Wales for Grŵp Llandrillo Menai. It is very pleasing to note this overall satisfaction with our services.

The year witnessed a comprehensive overhaul of the Grŵp's curriculum offer to comply with the requirements of a new Post-16 curriculum in Wales. This is characterised by the introduction of a full suite of Programmes of Learning which replaced the previous curriculum package offered by the Grŵp. This was an extensive exercise and I must express my thanks and admiration of the staff team who implemented this change whilst also being subject to financial reductions of around £1.25 million in the Further Education grant.

A management restructure across the Grŵp also implemented a coherent and consistent structure in each of the colleges, geared to securing consistency of standards, sharing of good practice and greater compliance with Grŵp policies and procedures. This included a change in leadership at each of the Grŵp's colleges. Congratulations and best wishes to Dafydd Evans, Ian Rees and Linda Wyn who took up roles as Principal at Coleg Llandrillo, Coleg Menai and Coleg Meirion-Dwyfor. Kath Coughlin continues in her important role as Executive Director of Corporate Services.






## Glyn Jones OBE

**Prif Weithredwr**
**Chief Executive Officer**


Wrth gynllunio'n gyffredinol, byddwn yn rhoi sylw arbennig i fireinio a gwella ein cysylltiad â gweithwyr ac i ddarparu gwasanaethau i fusnesau lleol ac er budd economi'r rhanbarth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom adolygu'r gwasanaeth hwn, gan gyfuno timau staff i greu un tîm traws-Grŵp, a byddwn yn lansio gwasanaeth a brand newydd y tîm hwn y flwyddyn nesaf. Yn chwarae rhan amlwg yn hyn o beth, mae'r berthynas â'r ddwy ardal fenter yng Ngogledd Orllewin Cymru, a'r gwaith a wna'r cwmnïau allweddol a'r gadwyn gyflenwi yno.

Mae tri datblygiad yn haeddu cael eu crybwyll yn y cyswllt hwn:

- Llofnodwyd Memorandwm Dealltwriaeth gyda Phŵer Niwclear Horizon yn gynharach yn 2013 er mwyn cynorthwyo i feithrin sgiliau a datblygu rhaglenni hyfforddi ledled Ynys Môn a Gogledd Cymru.
- Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Ken Skates, y bwriad i fuddsoddi £2.3 miliwn mewn hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau, yn sector ynni Cymru. Bydd y buddsoddiad yn canolbwyntio ar baratoi pobl ar gyfer gweithio ar ddatblygiadau mawr ar Ynys Môn, yn enwedig yn yr Wylfa Newydd, yr orsaf bŵer niwclear arfaethedig.
- Yn rhan o raglen yr Ynys Ynni, datblygwyd ar gampws Llangefni hyfforddiant ym maes peiriannau trwm i'r diwydiant adeiladu, er mwyn darparu cyrsiau hyfforddi arbenigol, na fyddai ar gael fel arall yng Ngogledd Cymru, i weithwyr lleol. Cefnogodd Hitachi Building Machinery y Ganolfan Hyfforddi ym maes Peiriannau Trwm drwy gyflenwi peiriannau tyrchu newydd o'r radd flaenaf.

Bydd y newidiadau a wnaed yn 2013-14 yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ein bod yn parhau i lwyddo ac yn ymateb i'r heriau a ddaw i'n rhan yn y dyfodol.

Refining and improving our employee engagement and providing services to local business and the regional economy is a major feature in the Grŵp's overall planning. During the year, we have reviewed this service and merged teams of staff into one cross-Grŵp team whose new brand and service will be launched next year. Particularly prominent in this context is the relationship with the two enterprise zones in North West Wales, and the key companies and supply chain operations based there.

Three developments are worthy of note in this context:

- A Memorandum of Understanding was signed with Horizon Nuclear Power earlier in 2013 to support further skills and training programmes across Anglesey and North Wales.
- Deputy Skills Minister, Ken Skates, announced a £2.3 million investment in training, including apprenticeships, for Wales' energy sector, focussing on preparing people for work on major developments on Anglesey, especially Wylfa Newydd, the planned nuclear power station.
- Construction industry plant training was developed at the Llangefni campus as part of the Energy Island Programme, to provide the local workforce with access to specialist training courses that would not otherwise be available in North Wales. Hitachi Construction Machinery supported the Heavy Plant Training Centre by supplying new state-of-the-art excavators.

The changes implemented in 2013-14 will be significant in ensuring our continued success and in responding to the challenges that we face in the future.

# Y Cynnydd a wnaed o ran y Nodau Strategol:
# Progress towards Strategic Goals:



## 1 Sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau rhagorol a chanlyniadau cyson ym mhob un o golegau'r Grŵp.
## To achieve excellent learner experience and consistent outcomes in each of the Grŵp's member colleges.

Daeth Dylan Evans (Chweched Y Rhyl) yn ail yn y categori 'Dysgwr y Flwyddyn' yng ngwobrau ColegauCymru ac enillodd deitl 'Myfyriwr y Flwyddyn' yng Ngholeg Llandrillo. Enillodd fedal arian yn Olympiad Ffiseg Prydain (allan o 2,000 o fyfyrwyr ffiseg o bob cwr o'r Deyrnas Unedig) a bellach, wedi iddo gael dwy radd A* mewn Ffiseg a Mathemateg Lefel A (gan gynnwys marciau llawn mewn dau fodiwl Mathemateg) a gradd A mewn Cemeg, mae'n astudio Ffiseg Ddamcaniaethol ym Mhrifysgol Manceinion.

Wedi iddi gael 4 gradd A mewn Mathemateg, Cemeg, Bioleg a Bagloriaeth Cymru, mae Ffion Trythall (Campws Pwllheli) yn astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Ymhlith y rhai a wnaeth yn dda ar Gampws Bangor, roedd Edward Meek sydd bellach yn astudio Peirianneg Awyrofod ym Mhrifysgol Manceinion, Rhiannon Berkeley sy'n dilyn cwrs mewn Niwrowyddoniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, a Ben Griffiths a dderbyniodd le i astudio Sŵoleg ym Mhrifysgol Bangor.

Dylan Evans (Rhyl Sixth) was named runner-up in the 'Learner of the Year' category at the ColegauCymru/Colleges Wales awards and 'Student of the Year' at Coleg Llandrillo. He won a silver medal at the British Physics Olympiad (out of 2,000 physics students throughout the UK) and is now studying Theoretical Physics at Manchester University after achieving 2A*s in Physics and Maths A Levels (with full marks in two of his Maths modules) and A grade in Chemistry.

Ffion Trythall (Pwllheli Campus) is studying Medicine at Cardiff University after achieving 4As in Maths, Chemistry, Biology and the Welsh Baccalaureate. Bangor Campus successes included Edward Meek who is studying Aerospace Engineering at Manchester University, Rhiannon Berkeley who is at Cardiff University studying Neuroscience and Ben Griffiths who accepted a place at Bangor University to study Zoology.

## 2 Bod yn brif ddarparwr addysg a hyfforddiant dwyieithog ôl-16 yn Ewrop.
## To be the leading provider of bilingual post-16 education and training in Europe.




Cynigia colegau Grŵp Llandrillo Menai 'Docyn Iaith' i annog myfyrwyr i gyflwyno pedwar darn o'u gwaith cwrs yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan ddyfarnu gwobr o £100 y tymor ym mhob coleg. Ymhlith enillwyr y llynedd, roedd Enlli Lloyd Pugh, myfyrwraig ar y cwrs Pâtisserie a Danteithion Melys yng Ngholeg Llandrillo, Sarah-Jane Wilkinson, myfyrwraig ar y cwrs Antur Awyr Agored yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, ac Anna Williams, sy'n dilyn cwrs Teithio a Thwristiaeth yng Ngholeg Menai.

Grŵp Llandrillo Menai colleges offer the 'Tocyn Iaith' to encourage students to present four pieces of work in Welsh or bilingually as part of their coursework, with a £100 prize available each term at each College. Last year's winners included Enlli Lloyd Pugh, a Patisserie & Confectionary student at Coleg Llandrillo, Outdoor Adventure student Sarah-Jane Wilkinson from Coleg Meirion-Dwyfor and Anna Williams, a Travel & Tourism student at Coleg Menai.

**Mae'n bleser gan y Grŵp adrodd ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyrraedd ei nodau strategol, fel y dengys yr enghreifftiau hyn.**

**The Grŵp is pleased to report that significant progress towards its strategic goals has been achieved, as these examples demonstrate.**

## 3 Buddsoddi yn ein staff ar bob lefel a'u galluogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd 8,429 cais i fynd i ddigwyddiadau datblygu staff; roedd 677 o'r rhain yn ddigwyddiadau allanol. Roedd naw aelod staff yn gweithio at radd Meistr, ac un y gweithio at ei Ddoethuriaeth.

## To invest in and enable our staff at all levels to provide an excellent service.

During the year, a total of 8,429 applications to attend internal and external staff development events were approved and completed; 677 of these were external events. Nine members of staff were working towards their Masters degrees, and one towards his PhD.

## 4 Sicrhau bod gan ein dysgwyr y sgiliau hanfodol i'w harfogi ar gyfer dinasyddiaeth a bywyd gwaith cynhyrchiol.

Yn 'Seremoni Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle 2014' a gynhaliwyd ym Mangor dan nawdd Llywodraeth Cymru, dathlwyd i gannoedd o ddysgwyr Sgiliau Hanfodol o Goleg Llandrillo, Coleg Menai a WEA Cymru ennill dros 650 o gymwysterau. Traddododd Steve Lyle (Coleg Llandrillo) araith ysbrydoledig fel 'Llais y Dysgwr'. Soniodd am ei ddyslecsia, gan gynnwys ei brofiadau negyddol yn yr ysgol, a sut y gwnaeth y rhaglen newid ei fywyd.

## To ensure that our learners have the essential skills to equip them for citizenship and a productive working life.

At the Welsh Government-backed 'Essential Skills in the Workplace Awards 2014' in Bangor, the achievement of over 650 qualifications by hundreds of Essential Skills learners from Coleg Llandrillo, Coleg Menai and WEA Cymru was celebrated. Steve Lyle (Coleg Llandrillo) gave an inspirational speech as the 'Learner Voice', talking about his dyslexia, including negative experiences at school, and how the programme had been life-changing.

## 5 Datblygu cwricwlwm Addysg Bellach ac Addysg Uwch sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a dyheadau a blaenoriaethau economaidd Cymru.

Ymhlith y datblygiadau cwricwlaidd, roedd dau gwrs a luniwyd ar y cyd â'r Academi Sgiliau Genedlaethol ym maes Pŵer (NSAP). Ar Gampws Llandrillo-yn-Rhos, cwblhaodd y criw cyntaf o Brentisiaid Tyrbinau Gwynt ddwy flynedd o hyfforddiant yn y coleg, a mynd ymlaen i'w blwyddyn derfynol yn gweithio yn y diwydiant, gan gynnwys prosiect fferm wynt RWE Innogy UK, sef Gwynt y Môr. Cynlluniwyd y rhaglen Brentisiaeth ar y cyd gan Grŵp Llandrillo Menai, EU Skills a NSAP, ynghyd â RWE Innogy UK ac ISO Fab Cyf, ac fe'i hariannwyd yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn rhaglen beilot a gynhaliwyd yn 2012/13, yn 2013/14 ailddatblygwyd cynnwys y cwrs Gradd Sylfaen mewn Peirianneg Niwclear mewn cydweithrediad â NSAP, ac fe'i dilyswyd a'i gymeradwyo gan Brifysgol Canol Sir Gaerhirfryn, Preston (UCLan). Datblygwyd tair ffrwd wahanol (Cynhyrchu Pŵer, Datgomisiynu a Rheoli Prosiectau Niwclear) er mwyn adlewyrchu'r diwydiant pŵer niwclear yng Ngogledd Cymru.



## To develop a Further Education and Higher Education curriculum which reflect local priorities and the economic aspirations and priorities of Wales.

Curriculum developments included two courses devised with the National Skills Academy for Power (NSAP). At the Rhos-on-Sea campus, the first intake of Wind Turbine Apprentices completed two years of college-based training and progressed to their final year where they are working in industry, including at RWE Innogy UK's Gwynt y Môr offshore wind farm project. The Apprenticeship programme was designed by Grŵp Llandrillo Menai, EU Skills and the NSAP, together with RWE Innogy UK and ISO Fab Ltd, and was part-funded by the European Social Fund through the Welsh Government.

Following a pilot in 2012/13, the course content for the Foundation Degree in Nuclear Engineering was redeveloped with the NSAP during 2013/14, and validated and approved by the University of Central Lancashire, Preston (UCLan). Three different streams (Power Generation, Decommissioning and Nuclear Project Management) were developed to reflect the nuclear power industry in North Wales.

## 6 Cefnogi datblygiad economaidd Gogledd Cymru drwy gynnig gwasanaeth cynhwysfawr ac integredig sy'n ymgysylltu â chyflogwyr ac yn datblygu busnesau.

Yn rhan o raglen y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP), cydweithiodd y Ganolfan Arloesi yng Ngholeg Menai â GL Jones Playgrounds Ltd, Bethesda, i wella a chyflwyno systemau dylunio newydd symlach i ddatblygu offer arloesol ar gyfer llefydd chwarae. Enillodd y bartneriaeth y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Partneriaeth Orau KTP Cymru am 2013, ac yng Ngwobrau 'Best of the Best' KTP UK a gynhaliwyd yn Llundain, derbyniodd 'Gymeradwyaeth Arbennig' gan y beirniaid – y cyntaf erioed i dderbyn gwobr o'r fath.

## To support the economic development of North Wales through a comprehensive and integrated employer engagement and business development service.

As part of the Knowledge Transfer Partnership (KTP) programme, Coleg Menai's Innovation Centre worked with GL Jones Playgrounds Ltd of Bethesda to improve and introduce new streamlined design systems to develop innovative playground equipment. The partnership won first prize in the 'Wales KTP Best Partnership Award' for 2013, and at the 'UK Best of the Best KTP Awards' in London, it received an unprecedented 'Special Commendation' from the judges.



## 7 Denu cymaint â phosibl o gyllid ac incwm gan Lywodraeth Cymru, ffynonellau Ewropeaidd, mentrau, recriwtio myfyrwyr o dramor, gweithgareddau masnachol a chaffael yn effeithlon.

Cafodd prosiect Dyfodol, sy'n ariannu hyfforddiant i fusnesau drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), ei ymestyn am ddwy flynedd arall o 2013 tan fis Gorffennaf 2015, gan gynhyrchu £1.2 miliwn o arian ESF ychwanegol. Mae'r prosiect, a arweinir gan Grŵp Llandrillo Menai, mewn partneriaeth â Choleg Cambria a WEA Cymru, yn cynnig hyfforddiant a datblygiad i gwmnïau yn y sector preifat yn siroedd Ynys Môn, Conwy, Dinbych a Gwynedd am un tâl o £50 y gweithiwr. Gall diffyg cyllid fod yn rhwystr mawr i ficrofusnesau (cwmnïau sydd â llai na 5 aelod staff) gael hyfforddiant. Mae hyn, yn ei dro, yn atal economi Gogledd Cymru rhag tyfu. Hyd yn hyn, mae dros 6,800 o weithwyr o 1,600 cwmni wedi derbyn hyfforddiant.

## To maximise funding and income generation from Welsh Government, European sources, enterprise, international recruitment, commercial activities and efficient procurement.

The Dyfodol project, which funds business training through the European Social Fund (ESF), was extended for an extra two years from 2013 until July 2015, generating an additional £1.2 million ESF Funding. Led by Grŵp Llandrillo Menai, in partnership with Coleg Cambria and WEA Cymru, the project offers training and development for private sector companies in Anglesey, Conwy, Denbighshire and Gwynedd for a one-off participation fee of £50 per employee. For micro businesses (companies with fewer than 5 members of staff), finances can be a major barrier to accessing training, which in turn hinders the growth of the North Wales economy. To date, over 6,800 employees from 1,600 companies have participated in training.



## 8 Cynnal a datblygu amgylcheddau dysgu cynaliadwy, sy'n ysbrydoli ac sy'n cynnwys uwch-dechnolegau.

Fis Mehefin 2014, yn dilyn 10 mis o waith adeiladu, cwblhawyd Canolfan Brifysgol newydd, werth £4.5 miliwn, yng Ngholeg Llandrillo. Codwyd y Ganolfan Brifysgol mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, ac mae wedi ennill gradd 'rhagoriaeth' BREEAM am y dull cynaliadwy y cafodd ei dylunio a'i hadeiladu ac y caiff ei rhedeg. Darpara gyfleusterau o'r radd flaenaf, gan atgyfnerthu rôl Grŵp Llandrillo Menai fel un o brif ddarparwyr cyrsiau prifysgol yng Ngogledd Cymru. Yn yr adeilad pwrpasol, ceir yr offer TG a'r offer amlgyfrwng diweddaraf, ynghyd â chyfleusterau dysgu ac addysgu penigamp, gan gynnwys theatrau darlithio, ystafelloedd seminar, adnoddau llyfrgell a mannau astudio o'r radd flaenaf, i fyfyrwyr gradd y Grŵp.

## To maintain and develop sustainable and inspiring learning environments with a high technology specification.

A new £4.5 million University Centre at Coleg Llandrillo (UCCL) was completed in June 2014, following 10 months of building works. The UCCL was built in partnership with Bangor University and has been awarded a 'BREEAM: Excellent' rating for its sustainable building design, construction and operation. It provides outstanding facilities and consolidates Grŵp Llandrillo Menai's role as a key provider of university courses in North Wales. The bespoke building is equipped with the latest IT and multimedia equipment, and includes state-of-the-art lecture theatres, seminar rooms, library resources and study areas to provide outstanding teaching and learning facilities for the Grŵp's degree students.

## 9 Ysgogi cydweithio a thrawsnewid, a bod yn ganolbwynt o ran gweithio mewn partneriaeth ym maes addysg a hyfforddiant ôl-14.

Gweithiodd y tri choleg sy'n rhan o'r Grŵp mewn partneriaeth ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol i wella profiadau addysgol disgyblion ysgol 14-19 oed. Yn 2013/14, elwodd cyfanswm o 2,112 disgybl (1,651 disgybl 14-16 oed a 461 disgybl 16-19 oed) ar yr addysg alwedigaethol a ddarperir gan dri choleg y Grŵp. Roedd y ddarpariaeth hon yn cynnwys profiadau galwedigaethol mewn meysydd fel Peirianneg, Adeiladu, Cyfryngau, TGCh, Arlwyo ac Amaethyddiaeth.

Er i'r Grŵp ganolbwyntio'n bennaf ar brofiadau'r dysgwyr, chwaraeodd ran allweddol hefyd yn y trefniadau o ran sbarduno, cynllunio a chydlynu'r cyrsiau hyn. Enghraifft o hyn oedd rôl ganolog y Grŵp yng ngwaith Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn, a ddenodd gyllid o Ewrop i sefydlu a datblygu ffordd fwy systematig o sicrhau bod dysgwyr 16-19 oed yn cael yr addysg fwyaf perthnasol, o'r ansawdd gorau a mwyaf cost effeithiol.

## To be a driving force for collaboration and transformation and a hub for partnership working in post-14 education and training.

The three colleges within the Grŵp worked in partnership with schools and Local Authorities to enhance the educational experiences of 14-19 pupils in schools. In 2013/14, a total of 2,112 pupils (1,651 in the 14-16 age range and 461 in the 16-19 age range) benefited from vocational education provided by the Grŵp's three colleges. This provision included vocational experiences in areas such as Engineering, Construction, Media, ICT, Catering and Agriculture.

While the main focus was on the experiences the learners received, the Grŵp was also a key player in the emerging arrangements for driving, planning and co-ordinating these courses. An example was the Grŵp's central role in the work of the Gwynedd and Ynys Môn Post-16 Education Consortium, which attracted European funding to establish and develop a more systematic way of ensuring that 16-19 learners are provided with the most relevant, highest quality and most cost-effective education.



## 10 Cefnogi adfywio economaidd yng nghymunedau Gogledd Cymru drwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau, sy'n ymwneud â chyflogadwyedd a sgiliau, i Oedolion yn y Gymuned.

Lansiwyd prosiect deuddeg mis, Llwybrau Blaengar i Feithrin Cysylltiadau (PEP), a arweinir gan Grŵp Llandrillo Menai mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru a'r Adran Waith a Phensiynau. Bwriad y prosiect oedd gwella'r cyfleoedd i bobl ifanc 19-24 oed sydd wedi ymddieithrio ledled siroedd Conwy a Dinbych.

Comisiynwyd y prosiect gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Siroedd Conwy a Dinbych mewn ymateb i ystadegau a ddangosai nad oedd llawer o rai 19-24 oed yng Nghymru mewn addysg, mewn cyflogaeth nac mewn hyfforddiant (NEET) a bod llawer iawn o rai 17-24 oed yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith. Cefnogwyd y prosiect gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mewn digwyddiadau a gynhaliwyd ledled siroedd Conwy a Dinbych, ymgynghorwyd â thros 200 o bobl ifanc a 60 aelod staff, gan gasglu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n hanfodol er mwyn cynnal y ddarpariaeth a siapio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Eisoes deilliodd hyn ar newidiadau yn y modd y cyflenwir y gwasanaeth.

## To support regeneration in North Wales' communities through a comprehensive programme of Adult & Community-based employability and skills activities.

A twelve month Progressive Engagement Pathways (PEP) project led by Grŵp Llandrillo Menai, working with Careers Wales and the Department of Work & Pensions, was launched, aimed at improving the opportunities for disengaged young people aged 19-24 years across Conwy and Denbighshire.

The project was commissioned by the Conwy & Denbighshire Local Service Board in response to statistics showing high levels of 19-24 year olds in Wales not in education, employment or training (NEET) and 17-24 year olds claiming Job Seekers' Allowance. The project was supported by the European Social Fund, through the Welsh Government.

At consultation events across Conwy and Denbighshire involving over 200 young people and 60 staff, valuable information and insights were gathered which are proving fundamental in supporting and shaping how service provision will be delivered in the future and which have already resulted in changes being made to service delivery.




## 11 Sicrhau amgylchedd gweithio iach, diogel a theg, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth a geir ymhlith ein staff a'n dysgwyr.

Cyrhaeddodd Grŵp Llandrillo Menai'r lefel uchaf bosibl o ran safonau amgylcheddol ac agenda gwyrdd, gan dderbyn achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd am Reoli Amgylcheddol yn y tri choleg gan Groundwork Cymru. Yn sgil yr archwiliad a gynhaliwyd ar ei gampysau, daliodd Coleg Llandrillo afael ar ei ddyfarniad Lefel Pump, a chododd Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor i Lefel Pump o'r Lefel Pedwar a ddyfarnwyd iddynt yn flaenorol. Mae'r Ddraig Werdd yn cydnabod rheoli amgylcheddol effeithiol, gan wobrwyo camau a gymerir i wella'r amgylchedd.

## To ensure a healthy, safe and equitable working environment, which reflects the diversity of our staff and learners.

Grŵp Llandrillo Menai achieved the highest level possible for its environmental standards and green agenda, after being awarded Groundwork Wales' Green Dragon Environmental Management Level 5 accreditation across all three colleges. During an audit of its campuses, Coleg Llandrillo retained its Level Five award, whilst Coleg Menai and Coleg Meirion-Dwyfor moved up from the Level Four standard previously achieved. Green Dragon recognises effective environmental management and rewards actions taken to achieve environmental improvements.

## 12 Sicrhau proffil uchel a chadarnhaol o ran marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, sy'n sail i dargedau recriwtio ac sy'n gwella enw da'r Grŵp yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Defnyddiwyd hanesion myfyrwyr llwyddiannus fel Owain Jones i hyrwyddo'r colegau mewn amrywiaeth o gyfryngau. Yn wreiddiol, cofrestrodd Owain ar gwrs Gwaith Saer Lefel 1 yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, pan oedd yn aros i ymuno â'r fyddin. Ond mwynhaodd y cwrs gymaint, daliodd ati i astudio yn y coleg, gan gwblhau Lefel 3 mewn Gwaith Saer ar Safle Adeiladu ac ennill medalau aur mewn cystadlaethau Adeiladu Sgiliau, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ogystal â sefydlu ei fusnes ei hun.

Ar ôl ennill medal aur yn rownd derfynol SkillBuild UK fis Gorffennaf 2014, cafodd ei enwi'n aelod o Sgwad y Deyrnas Unedig a fydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth WorldSkills a gynhelir yn São Paulo yn 2015. Bydd yn ymarfer bob mis gyda chymorth rheolwr hyfforddi cymwys. Fis Mai 2015, bydd yn cystadlu am le yn y tîm a fydd yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig ym Mrasil.




## To ensure a high profile and positive public relations and marketing profile, which underpins recruitment targets and enhances the Grŵp's reputation in the communities it serves.

Biographies of successful students like Owain Jones were used to promote the colleges in a variety of media. Owain initially enrolled at Coleg Meirion-Dwyfor on a Level 1 Carpentry course to fill in time before joining the army, but enjoyed his course so much that he continued his studies at college, completing Level 3 Site Carpentry and winning gold at regional and Wales SkillBuild competitions, as well as setting up his own business.

After winning gold at the SkillBuild UK National Finals in July 2014, he was named in Squad UK for WorldSkills São Paulo 2015 and will train each month with the support of a dedicated training manager. In May 2015, he will compete for a place in the team that will represent the UK in Brazil.

# Llwyddiannau a Chyflawniadau
# Successes & Achievements



## Gwobrau ColegauCymru

Yn y Seremoni Wobrwyo flynyddol, enillodd y Grŵp ddwy o'r saith gwobr a oedd ar gael. Derbyniodd Canolfan Mentergarwch Ieuenctid Gogledd-orllewin Cymru y wobr 'Entrepreneuriaeth a Chyflogadwyedd' am gynllun ar y cyd rhwng Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor. Pwrpas y cynllun yw codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ac i rannu arferion da ac adnoddau er budd myfyrwyr ledled Gogledd-orllewin Cymru.

Enillodd Dr Graham Hall, sydd wedi bod yn ddarlithydd ar gampws Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau ers dros 20 mlynedd ac a wahoddir yn rheolaidd i siarad mewn cynadleddau rhyngwladol, wobr 'Athro'r Flwyddyn' am ei frwdfrydedd a'i ymroddiad.



## ColegauCymru Awards

At the annual Awards Ceremony, the Grŵp won two of the seven awards available. The North West Wales Youth Enterprise Hub received the 'Entrepreneurship & Employability' award for a partnership initiative between Grŵp Llandrillo Menai and Bangor University, which aims to increase awareness of entrepreneurship and share best practice and resources for the benefit of students across North West Wales.

Dr Graham Hall, a lecturer at Coleg Meirion-Dwyfor's Dolgellau campus for over 20 years and a regular guest speaker at international conferences, won the 'Teacher of the Year' award for his enthusiasm and dedication.

## Coleg Plastro Gorau'r Deyrnas Unedig

Ym mhymthegfed cyfarfod gwobrwyo blynyddol 'Plaisterers', enillodd Coleg Menai 'Dlws John G Robinson' am fod y coleg sy'n perfformio orau yn y Deyrnas Unedig. Hefyd, enillodd y wobr gyntaf yng Ngwobrau Rhanbarthol Cymru a 'Thlws Harmer' am y canlyniadau Lefel 3 gorau yn y categori colegau 'mwy'.

## Top UK Plastering College

At the 15th annual 'Plaisterers' Training Awards, Coleg Menai won the 'John G Robinson Trophy' for the best performing college in the UK. It also won first prize in the Regional Awards for Wales and the 'Harmer Trophy' for the best results at Level 3 in the top 'larger' college category.



## L'Étape y Grŵp

Beiciodd dros 40 aelod staff sy'n gweithio ar amrywiol gampysau Grŵp Llandrillo Menai, a dau Bennaeth yn eu plith, gannoedd o filltiroedd mewn taith feicio deuddydd er budd Tŷ Gobaith, a chwblhaodd y rhai nad oeddynt yn beicio sawl cam o'r daith ar droed. Llwyddwyd i godi dros £3,000 at yr hosbis i blant.

## The Grŵp does L'Étape

Over 40 staff from across Grŵp Llandrillo Menai's campuses, including two Principals, covered hundreds of miles on a two-day cycle ride in aid of Tŷ Gobaith, with non-cyclists walking several of the routes. Over £3,000 was raised for the children's hospice.





## Gwobrau Dysgu Digidol

Yn Seremoni Gwobrau Dysgu Digidol Cenedlaethol 2014, enillodd Adran Adeiladu Coleg Llandrillo'r wobr 'Prosiect Digidol Masnachol' am 'y defnydd gorau yn yr ystafell ddosbarth o brosiect sydd ar gael yn fasnachol'. Datblygodd Gaia Technologies rith safle adeiladu mewn partneriaeth â staff yr Adran Adeiladu.

Enillodd tîm Sgiliaith, a leolir yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, y wobr am 'Gynnwys Digidol Gwreiddiol ym maes Addysg Bellach'. Mewn cydweithrediad â chyflogwyr, datblygwyd adnodd rhyngweithiol ar-lein, sy'n cynnwys fideos, cwisiau a holiaduron, i hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg.

## Digital Learning Awards

At the National Digital Learning Awards 2014, Coleg Llandrillo's Construction Department won the 'Commercial Digital Project Award' for the 'Best use of a commercially available project for use in the classroom'. A virtual construction site was developed by Gaia Technologies in partnership with Construction staff.

The Sgiliaith team at Coleg Meirion-Dwyfor won the award for 'Original Digital Content in Further Education'. An interactive, online resource which included videos, quizzes and questionnaires, was developed with employers to promote the value of Welsh language skills.

## Gwobr Beacon

Yn ogystal, enillodd tîm Sgiliaith Wobr Beacon Cymdeithas y Colegau am 'Ddefnydd Effeithiol o Dechnoleg ym maes Addysg Bellach a Sgiliau' am ei ddefnydd arloesol o fideo gynadledda i ategu a chyflwyno gwersi Lefel A mewn ysgolion ledled Cymru.

## Beacon Award

The Sgiliaith teaching team also won the Association of Colleges' Beacon Award for 'Effective Use of Technology in Further Education and Skills' for its innovative use of video conferencing to support and deliver A Levels to schools across Wales.





## Gwobr Ansawdd

Dyfarnwyd 'Gwobr Ansawdd' i Grŵp Llandrillo gan Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru. Dyma'r safon ddisgwyliedig i ddarparwyr hyfforddiant sy'n cynnig cyrsiau arwain a rheoli yng Nghymru, a gymeradwywyd i gyflwyno cyrsiau'r Sefydliad Arwain a Rheoli (ILM) neu Sefydliad y Rheolwyr Siartredig (CMI), ac sy'n bodloni safonau'r wobr o ran ansawdd.

## Quality Award

Grŵp Llandrillo Menai was awarded the Leadership & Management Wales 'Quality Award'. This represents the definitive standard for training providers offering leadership and management courses in Wales, who are approved to deliver courses by the Institute of Leadership & Management (ILM) or the Chartered Management Institute (CMI) and who meet the award's quality standards.



## Marc Gyrfa Cymru

Enillodd Adran Sgiliau Byw'n Annibynnol Coleg Meirion-Dwyfor yng Nglynllifon Farc Gyrfa Cymru am ansawdd ei darpariaeth ym maes gyrfaoedd, gwaith a chyflogaeth, ac am ei gwaith cyson yn datblygu'r ddarpariaeth honno.

## Careers Wales Mark

Coleg Meirion-Dwyfor's Independent Living Skills Department at Glynllifon won a Careers Wales Mark in recognition of the quality of the provision in careers, work and employment and their work towards continuous improvement.

## Gwobr Ysbrydoli! Addysg Oedolion (NIACE Cymru)

Ar ôl newid gyrfa o fod yn therapydd harddwch i fod yn beiriannydd, enillodd Tanya Redman y wobr 'Cyflogai mewn Addysg' yn Seremoni Wobrwyo Ysbrydoli! NIACE Cymru. (Campws Dolgellau, Prentis Peirianneg: Dŵr Cymru.)

## NIACE Inspire! Adult Learning Award

Tanya Redman won the 'Employee in Learning Award' at the NIACE Dysgu Cymru Inspire! Adult Learning Awards, after changing her career path from beautician to engineer. (Dolgellau Campus, Apprentice engineer: Welsh Water.)



## Gardd Ysgol Bum Seren y RHS

Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol wedi cydnabod bod gardd tîm Sgiliau Byw'n Annibynnol Glynllifon yn Ardd Bum Seren. Dyfernir y wobr i sefydliadau addysgol sy'n dangos eu bod yn addysgu'n llwyddiannus ym maes garddwriaeth, sy'n cydweithio yn y gymuned, sy'n cynnig addysg drawsgwricwlaidd ac sy'n gyson ddatblygu'r profiadau a gaiff dysgwyr yn yr ardd.

## RHS Five Star School Garden

The Glynllifon Campus's Independent Living Skills team were recognised as having a Five Star School Garden by the Royal Horticultural Society. The award is given to educational establishments who can show horticultural educational success, community co-operation, cross-curriculum education and consistent development in learners' experiences in the garden.



## Ffermwr y Flwyddyn

Enwyd Eurwyn Edwards, Cyfarwyddwr Datblygu ar Gampws Glynllifon, yn 'Ffermwr y Flwyddyn' gan y Farmer's Weekly mewn seremoni yn Llundain, am ei waith yn helpu datblygu fferm a choetir 300 hectar y Grŵp.

## Farmer of the Year

Eurwyn Edwards, Development Director at the Glynllifon Campus, was named 'Farmer's Weekly: Countryside Farmer of the Year' at a ceremony in London, for his role in helping to develop the Grŵp's 300 hectare farm and woodland.

## Olympiadau Gwyddoniaeth Prydain


Enillodd 16 o fyfyrwyr Coleg Llandrillo sy'n dilyn cyrsiau Lefel A a'r Fagloriaeth Ryngwladol wobrau yn yr Olympiad Bioleg a'r Olympiad Cemeg. Enillodd chwech fedalau efydd a chafodd deg gymeradwyaeth.

## National Science Olympiads

In the Biology and Chemistry Olympiads, 16 A Level and International Baccalaureate students from Coleg Llandrillo won awards. Six won bronze medals and ten received commendations.









## Cystadlaethau Sgiliau Cymru

Enillodd myfyrwyr o'r tri choleg nifer o wobrau yn rowndiau rhanbarthol Sgiliau Cymru, a chafodd llawer lwyddiant yn y rowndiau terfynol.

Ymhlith y llwyddiannau a gafwyd yn rowndiau terfynol Cymru, roedd medalau aur, arian ac efydd yn yr adran Modelu 3D ac Animeiddio ac yn yr adran Peirianneg Fecanyddol (CAD).

Cafwyd medalau aur hefyd yn yr adrannau Coginio Proffesiynol, Adeiladu, a Phaentio ac Addurno, medalau arian ac efydd yn yr adrannau Cyfrifeg a Dylunio Gwefannau, a medalau efydd yn yr adrannau Trwsio Cyrff Cerbydau a Pheirianneg Cerbydau Modur.

Enillodd myfyrwyr Trin Gwallt a Therapi Harddwch, a myfyrwyr Iechyd a Gofal, hefyd fedalau mewn rowndiau rhanbarthol yn Lloegr.

Cymhwysodd wyth myfyriwr i gystadlu yng nghystadlaethau WorldSkills UK a gynhaliwyd ym Mirmingham fis Tachwedd 2014.

## Skills Wales Competitions

Students from the three colleges won numerous awards in regional heats, with many achieving success in the Skills Wales finals.

In the Welsh finals, medal successes included gold, silver and bronze in both 3D Modelling & Animation and Mechanical Engineering (CAD).

There were also gold medals in Professional Cookery, Construction and Painting & Decorating, silver and bronze medals in Accounting and in Web Design, and bronze medals in Vehicle Body Repair and Automotive Engineering.

Hairdressing & Beauty Therapy and Health & Care students also picked up medals in regional heats in England.

Eight students qualified for the UK WorldSkills competitions in Birmingham in November 2014.




## Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Enwyd Jane Plant, myfyrwraig sy'n dilyn y cwrs Astudiaethau Byddardod yng Nghanolfan Ddysgu'r Bae, yn "Wirfoddolwr Y Flwyddyn" gan Sense mewn seremoni yn Llundain. Elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl fyddar-ddall, ac sy'n ymgyrchu ar eu rhan, yw Sense.

## Volunteer of the Year

Jane Plant, a Deaf Studies student at the Bay Learning Centre, was named Sense "Volunteer of the Year" at a ceremony in London. Sense is a national charity supporting and campaigning for deafblind people.



## Urdd y Gosodwyr Brics

Enillodd y prentis gosod brics, Andrew Arnold-Leese, y wobr gyntaf yn rownd derfynol Cymru o gystadleuaeth Urdd y Gosodwyr Brics.

## Guild of Bricklayers

Rhyl bricklaying apprentice Andrew Arnold-Leese won the Welsh final of the Guild of Bricklayers competition.



## Llwyddiannau ym maes Celf a Dylunio

Cafodd Ellen Carnegie, myfyrwraig Gelf a Dylunio ym Mharc Menai, interniaeth mewn stiwdio ddylunio o fri yn ardal King's Cross yn Llundain. Mae dyluniadau Thomas Heatherwick, sydd wedi derbyn canmoliaeth fawr, yn cynnwys bysiau newydd Llundain a'r fflam Olympaidd.

Yng nghystadleuaeth Gelf HART, 'Burma Unmasked', yn Llundain, daeth myfyrwyr o Goleg Menai'n gyntaf ac yn ail yn yr adran i rai 16-18 oed ac yn yr adran hŷn.

## Art & Design Successes

Ellen Carnegie, an Art & Design student at Parc Menai, was selected to serve an internship at a top London design studio in King's Cross. Thomas Heatherwick's acclaimed designs include the new London bus and the Olympic torch.

At the London HART Art Competition 'Burma Unmasked,' Coleg Menai students won the first and second prizes in both the 16-18 age group and in the senior section.

## TestTown Y Rhyl

O blith 400 ymgeisydd, dewiswyd Emily Hesketh, ynghyd â phedwar arall, i gystadlu yn rownd derfynol cystadleuaeth TestTown Ymddiriedolaeth Carnegie.

Derbyniodd pob un a gyrhaeddodd y rownd derfynol grant o £500 i agor a rhedeg eu siop eu hunain yng nghanol tref Y Rhyl am wythnos.

## TestTown Rhyl

Emily Hesketh was selected out of 400 submissions, along with four other finalists, to take part in the Carnegie TestTown competition.

Each finalist received a £500 grant to open their own shop in Rhyl town centre for one week.





## Wallace a Gromit

Roedd Chalotte Bell, myfyrwraig ar y cwrs Datblygu Gemau, yn un o 25 o bobl o bob cwr o'r Deyrnas Unedig a ddewiswyd i fynd i Gamp Animeiddio Sefydliad Ffilmiau Prydain. Yn ystod y cwrs preswyl wythnos a gynhaliwyd ym Mryste i ddarpar animeiddwyr 16-19 oed, cafodd gyfle i weithio ochr yn ochr â rhai o grewyr Wallace a Gromit.

## Wallace & Gromit

Games Development student Charlotte Bell was one of only 25 people across the UK to be chosen for the British Film Institute's Animation Camp. She had the chance to work alongside some of the creators of Wallace & Gromit during a week-long residential animation course in Bristol for budding young animators aged between 16 and 19.

## Llwyddiannau ym maes Arlwyo

Llwyddodd dau fyfyriwr Lletygarwch o gampws Llandrillo-yn-Rhos i gael swyddi gyda'r cogydd enwog, Heston Blumenthal: Nick Rudge yn Awstralia a Dwynwen Leonard yn Llundain.

Aeth Rob Cartwright, cogydd dan hyfforddiant, ar brofiad gwaith i Balas Buckingham lle cafodd hyfforddiant gan yr uwch Is-gogydd, a'r cyn-fyfyriwr o Goleg Llandrillo, Huw Jones, ac aeth Damian Farrell i Le Gavroche, bwyty Michel Roux, sydd wedi ennill sêr Michelin.

## Hospitality Successes

Two Hospitality students from the Rhos-on-Sea Campus secured jobs with celebrity chef Heston Blumenthal: Nick Rudge in Australia and Dwynwen Leonard in London.

Student chef Rob Cartwright went on work placement at Buckingham Palace kitchens under the tutorage of senior Sous Chef and ex-Coleg Llandrillo student, Huw Jones, while Damian Farrell went to Michel Roux's Michelin-starred restaurant, Le Gavroche, in London, for his work experience.

# Llwyddiannau ar y Maes Chwarae

## Cynrychiolodd myfyrwyr o’r tri choleg eu gwlad mewn amrywiol chwaraeon a gwahanol dimau.

**Chwaraeodd rhai i dimau ColegauCymru a chwaraeodd eraill i dimau Ysgolion Cymru. Yn 2014, enillodd tîm pêl-droed Academi Coleg Menai Gwpan Colegau Cymru.**

# Sports Successes

## Students from all three colleges represented their country in various sports and teams.

**Some played for ColegauCymru/Wales Colleges’ teams, while others played for Wales Schools’ teams. Coleg Menai’s Academy football team won the Welsh Colleges Cup Final in 2014**












| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pêl-droed Dynion Men’s football**<br>**Coleg Llandrillo** | Wesley Bennett | Peter Jones | Thomas Kemp | Philip Williams |
| **Pêl-droed Dynion Men’s football**<br>**Coleg Menai** | John Littlemore<br>Dale Murphy<br>Callum Davidson | Dewi Thomas<br>Corey Jones<br>Daniel Moore | Craig Whelan<br>Nathan Williams<br>Iolo Hughes | Jamie Jones<br>Sam Faulkner |
| **Pêl-droed Merched Women’s football**<br>**Coleg Menai** | Amy Roberts | Ffion Roberts | | |
| **Rygbi Dynion Men’s rugby**<br>**Coleg Llandrillo** | Lewis Stockton | Morgan Williams | | |
| **Rygbi Merched Women’s rugby**<br>**Coleg Meirion-Dwyfor** | Morfudd Ifans | Alaw Llewelyn | | |
| **Traws Gwlad Cross-country**<br>**Coleg Menai** | Andrew Jones | Jordan Sibley | | |
| **Nofio Colegau Cymru Swimming**<br>**Coleg Menai** | Sean Brame | | | |



# Arolygiadau Estyn

## Cynhaliodd Estyn ddau arolygiad yn ystod y flwyddyn, ac roedd y canlyniadau'n foddhaol iawn.

**Fis Tachwedd 2013, arolygwyd darpariaeth y Grŵp o ran Dysgu yn y Gwaith, ac aseswyd bod ein perfformiad cyfredol yn 'Dda', a'n rhagolygon o ran gwella'n 'Rhagorol'. Ymhlith sylwadau Estyn, cafwyd y datganiadau cryno a ganlyn:**

"At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt yn dda. Dengys data nas gwiriwyd bod cyfraddau cyrhaeddiad yn parhau i wella ar draws bron pob maes rhaglen. Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau hyfforddi.

Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda ar y cyfan, ac fe geir ambell enghraifft o arfer ragorol. At ei gilydd, mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda a chaiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda i'w helpu i ddatblygu eu haddysg a'u medrau cyflogadwyedd.

Gall dysgwyr fanteisio ar ystod eang iawn o raglenni hyfforddi ac adnoddau a chyfleusterau da i ragorol ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith."

**Fis Mehefin 2014, cynhaliodd Estyn Adolygiad Blynyddol o Berfformiad cyffredinol y Grŵp ym maes Addysg Bellach. Ni phennir graddau mewn Adolygiadau Perfformiad Blynyddol, ond roedd y datganiadau a ganlyn yn disgrifio'n perfformiad yn gyffredinol:**

"Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi gwella cyfraddau llwyddo, ar y cyfan, ar draws pob cwrs o un pwynt canran dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae bron pob dysgwr yn cwblhau eu cyrsiau ac mae'r Grŵp yn y chwarter uchaf o'r holl golegau yng Nghymru. Mae gan y Grŵp ffocws cryf ar safonau a pherfformiad. Mae hyn yn sbarduno gwelliannau ar lefel meysydd cwricwlwm ac ar draws campysau."

# Estyn Inspections

## Two inspections by Estyn took place during the year, with pleasing results.

**In November 2013, the Grŵp's Work-based Learning provision was inspected, and our current performance assessed as 'Good', with the prospects for improvement assessed as 'Excellent'. Estyn's commentary included the following summary statements:**

"Overall, the rates at which learners attain their full qualification frameworks are good. Unverified data shows that attainment rates are continuing to improve across almost all programme areas. Learners enjoy their learning and feel safe in their training environments.

The quality of teaching, training and assessment is good overall with a few examples of excellent practice. Overall, the quality of care support and guidance is good and learners are supported well to help them develop their education and employability skills.

Learners have access to a very wide range of training programmes and good to excellent training resources and facilities for both on and off-the-job training."

**An Annual Performance Review (APR) conducted by Estyn in June 2014 considered the Grŵp's overall Further Education performance. APRs are not graded but the following statements highlighted our overall performance:**

"Grŵp Llandrillo Menai has improved overall success rates across all courses by one percentage point over the last two years. Nearly all learners successfully complete their courses and the Grŵp is in the top quarter of all colleges in Wales. The Grŵp has a strong focus on standards and performance. This drives improvements at curriculum area level and across campuses."






# Ffeithiau, Ystadegau a Chyllid
# Facts, Figures & Finance

## Lefel A

**Roedd canlyniadau Lefel A Grŵp Llandrillo Menai'n sylweddol uwch na'r cymaryddion cenedlaethol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.**

Yn 2013/14, cynyddodd cyfradd lwyddo'r Grŵp yn yr arholiadau Lefel A i 98% (Cymaryddion Cenedlaethol: Y Deyrnas Unedig 98%, Cymru 97.5%). Roedd hyn yn cymharu â chyfradd lwyddo o 97.4% (Cymarebau Cenedlaethol: Y Deyrnas Unedig 98.1%, Cymru 97.6%) yn 2012/13.

Cododd y nifer o raddau A*-C a gafwyd o 70.9% i 77.1%, gan guro cyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 76.7%, a chyfartaledd Cymru, sef 75.2%.

Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, roedd y ganran graddau A*-C, sef 81.5%, yn nodedig iawn.

Ledled y chwe champws, safodd dros 750 o fyfyrwyr arholiadau Lefel A a Lefel AS, gyda phawb yn llwyddo mewn 96 allan o 107 pwnc.

## A Levels

**Grŵp Llandrillo Menai's A Level results were significantly above both Welsh and UK national comparators.**

A Level results for the Grŵp showed an increase in the pass rate to 98% (National Comparators: UK 98%, Wales 97.5%) in 2013/14. This compared with a pass rate of 97.4% (National Comparators: UK 98.1%, Wales 97.6%) in 2012/13.

The number of A*-C grades achieved increased from 71% to 78%, exceeding both the UK average of 76.7% and the Welsh average of 75.2%.

At Coleg Meirion-Dwyfor, the number of A*-C grades achieved was an impressive 81.5%.

Over 750 students sat A Level and AS Level exams, achieving 100% passes in 96 out of 107 subjects, delivered across six campuses.

| | 2014 | | 2013 | |
|---|---|---|---|---|
| | A* - C | A* - E | A* - C | A* - E |
| Grŵp Llandrillo Menai | 78% | 98% | 71% | 97.4% |
| Cyfartaledd y Deyrnas Unedig<br>UK Average | 76.7% | 98% | 77.2% | 98.1% |
| Cyfartaledd Cymru<br>Wales Average | 75.2% | 97.5% | 75.2% | 97.6% |

## Cyflawniad, Cyrhaeddiad a Chwblhau'n Llwyddiannus

**Dyma oedd y dangosyddion perfformiad allweddol o ran cyflawniad, cyrhaeddiad a chwblhau'n llwyddiannus:**

## Completion, Attainment and Successful Completion

**The Completion, Attainment and Successful Completion key performance indicators were as follows:**

| | Addysg Bellach a Llwybrau at Brentisiaethau<br>Further Education & Pathways to Apprenticeships | | |
|---|---|---|---|
| | 2013/14 | 2012/13 | 2011/12 |
| Cyflawniad<br>Completion | 92% (CC/NC 91%) | 93% | 91% |
| Cyrhaeddiad<br>Attainment | 93% (CC/NC 93%) | 92% | 92% |
| Cwblhau'n Llwyddiannus<br>Successful Completion | 85% (CC/NC 84%) | 84% | 84% |











## Canlyniadau Arolwg

**Yn Arolwg Llais y Dysgwr Cymru a gynhaliodd Ipsos Mori yn 2014, cymerodd 66,899 o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru ran, gan roi cyfle i ni feincnodi yn erbyn pob coleg arall yn y sector.**

Roedd yr arolwg yn cynnwys dysgwyr Addysg Bellach (37,917), rhai sy'n dysgu yn y gweithle, oedolion sy'n dysgu yn y gymuned, a rhai sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Cymerodd cyfanswm o 3,911 myfyriwr ran o Grŵp Llandrillo Menai.

Dangosodd y canlyniadau fod myfyrwyr o dri choleg y Grŵp ymhlith yr hapusaf yn y wlad, gyda'r Grŵp yn sgorio'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ym mhob un o gwestiynau'r arolwg.

O blith y myfyrwyr Addysg Bellach, mynegodd 88% eu bod yn fodlon iawn â'u darpariaeth, a nododd nifer sylweddol, sef 93%, o'r rhai sy'n dysgu yn y gweithle fod eu cyrsiau'n 'Dda' neu'n 'Dda Iawn'.

## Survey Results

**In the Learner Voice Wales survey carried out at the beginning of 2014 by Ipsos Mori, 66,899 students across Wales took part, providing an opportunity to benchmark against every other college in the sector.**

The survey included learners in Further Education (37,917), Work-based Learning, Adult Community Learning and Welsh for Adults. A total of 3,911 students took part from Grŵp Llandrillo Menai.

The results showed that students from the Grŵp's three colleges, were amongst the happiest in the country, with the Grŵp scoring well above average for every single question in the survey.

Among Further Education students, 88% indicated that they were highly satisfied with their provision, whilst an impressive 93% of Work-based learners rated their courses as 'Good' or 'Very Good'.

# Y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Gorffennaf 2014
# Consolidated Income & Expenditure Account for the Year Ended 31 July 2014

| Incwm<br>Income | 2014 (£'000) | 2014 (£'000) | 2014 (£'000) | 2013 (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Cyffredin<br>Ordinary Activities | Eitem Eithriadol (gweler Nodyn 1)<br>Exceptional item (see Note 1) | | |
| Grantiau Cyrff Cyllido<br>Funding Body Grants | 59,464 | - | 59,464 | 61,628 |
| Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysgol<br>Tuition Fees & Education Contracts | 5,936 | - | 5,936 | 5,556 |
| Incwm Arall<br>Other Income | 10,197 | - | 10,197 | 8,680 |
| Incwm o Fuddsoddiadau<br>Investment Income | 333 | - | 333 | 44 |
| **Cyfanswm yr Incwm<br>Total Income** | **75,930** | **-** | **75,930** | **75,908** |

| Gwariant<br>Expenditure | 2014 (£'000) | 2014 (£'000) | 2014 (£'000) | 2013 (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Staffio<br>Staff Costs | 47,840 | - | 47,840 | 46,819 |
| Eitem Eithriadol<br>Exceptional Item | - | 1,122 | 1,122 | - |
| Treuliau Gweithredol Eraill<br>Other Operating Expenses | 22,765 | - | 22,765 | 22,604 |
| Dibrisiant<br>Depreciation | 4,129 | - | 4,129 | 4,241 |
| Llog a Chostau Ariannol Eraill<br>Interest and Other Finance Costs | 224 | - | 224 | 474 |
| **Cyfanswm y Gwariant<br>Total Expenditure** | **74,958** | **1,122** | **76,080** | **74,138** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwarged ar y gweithrediadau sy'n parhau, cyn yr eitem eithriadol a heb FRS17<br>Surplus on continuing operations before exceptional item and without FRS17** | **972** | **(1,122)** | **(150)** | **1,770** |
| **Addasiad FRS17 (gweler Nodyn 2)<br>FRS17 adjustment (see Note 2)** | **(637)** | **-** | **(637)** | **(684)** |
| **(Colled)/gwarged am y flwyddyn, a gadwyd yn y cronfeydd cyffredinol<br>(Loss)/surplus for the year retained within general reserves** | **335** | **(1,122)** | **(787)** | **1,086** |

**Nodiadau**


1. Mae'r eitem eithriadol yn ymwneud â'r broses diswyddo gwirfoddol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn.
2. Addasiadau a wnaed wrth brisio pensiynau yw'r gwariant FRS17 uchod ac, i raddau helaeth, maent y tu allan i reolaeth rheolwyr y Grŵp.

**Notes**

1. The exceptional item relates to a voluntary redundancy process which took place during the year.
2. The expenditure above in respect of FRS17 are pension valuation adjustments largely outside of Grŵp management control.


# Incwm a Gwariant
# Income & Expenditure

## Incwm
## Income



| 2014 | 2013 | |
|---|---|---|
| £43,121,000 | £43,777,000 | Grant rheolaidd AdAS<br>DfES recurrent grant |
| £10,946,000 | £11,126,000 | Grant Dysgu Seiliedig ar Waith<br>Work-based Learning grant |
| £4,975,000 | £6,050,000 | Incwm o grantiau eraill AdAS<br>Other DfES grant income |
| £5,176,000 | £4,951,000 | Ffioedd dysgu<br>Tuition fees |
| £422,000 | £675,000 | Grant rheolaidd CCAUC<br>HEFCW recurrent grant |
| £760,000 | £605,000 | Incwm o fasnachfreinio contractau hyfforddi<br>Training contract franchise income |
| £3,047,000 | £2,523,000 | Cyllid Ewropeaidd<br>European Funding |
| £1,027,000 | £1,450,000 | Incwm arlwyo<br>Catering income |
| £704,000 | £632,000 | Incwm o weithgareddau ffermio<br>Farming activities income |
| £1,319,000 | £1,055,000 | Incwm o grantiau eraill<br>Other grant income |
| £4,100,000 | £3,020,000 | Incwm arall<br>Other income |
| £333,000 | £44,000 | Incwm o fuddsoddiadau<br>Investment income |
| **£75,930,000** | **£75,908,000** | |

## Gwariant
## Expenditure



| 2014 | 2013 | |
|---|---|---|
| £47,605,000 | £46,346,000 | Costau staffio<br>Staff costs |
| £1,994,000 | £1,157,000 | Costau ailstrwythuro, ymddeol a FRS17<br>Restructuring, retirement and FRS17 costs |
| £10,073,000 | £9,379,000 | Costau addysgu nad ydynt yn ymwneud â thâl<br>Teaching non-pay costs |
| £4,742,000 | £4,823,000 | Costau gweinyddu a chostau cyffredinol<br>Administration and general costs |
| £5,588,000 | £6,265,000 | Costau mewn perthynas ag adeiladau<br>Premises costs |
| £2,362,000 | £2,137,000 | Treuliau eraill<br>Other expenses |
| £4,129,000 | £4,241,000 | Dibrisiant<br>Depreciation |
| £224,000 | £474,000 | Llog a chostau ariannol eraill<br>Interest and other finance costs |
| **£76,717,000** | **£74,822,000** | |

**Coleg Llandrillo**
Llandrillo-yn-Rhos /
Rhos-on-Sea
Conwy LL28 4HZ
01492 546 666

**Coleg Meirion-Dwyfor**
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827

**Coleg Menai**
Bangor
Gwynedd LL57 2TP
01248 370 125